

Gwneud penderfyniadau da:

Canllaw ar gyfer ymchwiliadau a
meini prawf trothwy

**Ionawr
2018**

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyhyd â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn communications@pharmacyregulation.org os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2017

Cynnwys

1. Cyflwyniad	5
Am beth y mae'r canllaw hwn.....	5
Ar gyfer pwy y mae'r canllaw hwn.....	5
Cydraddoldeb ac amrywiaeth	6
2. Ynghylch ymchwiliadau	7
Y canllawiau a ddefnyddir ar bob cam o'r broses	7
Ymchwiliadau.....	8
Wedi i bryder gael ei fynegi.....	8
Camau gweithredu sydd ar gael yn ystod ymchwiliad.....	9
3. Penderfynu ar ganlyniad	12
Y broses gwneud penderfyniadau	12
Defnyddio'r meini prawf trothwy.....	12
Ystyriaethau'n ymwneud â budd y cyhoedd.....	14
Canlyniadau sydd ar gael	14
Penderfynu pa ganlyniad sy'n briodol	16
4. Ar ôl i benderfynaid gael ei wneud	17
Sicrhau ansawdd penderfyniadau	17

Amdanom ni

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith yw gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif swyddogaethau'n cynnwys:

- gosod safonau addysg a hyfforddiant fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a hyfforddiant
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
- ymchwilio i ofidiau nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau, a gweithredu er mwyn cyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fo angen diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- arolygu fferyllfeydd cofrestredig i gadarnhau eu bod yn cyrraedd ein safonau

Rydym yn ymrwymedig i warchod, hybu a gwella iechyd a diogelwch pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae delio gyda'r nifer fechan o fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol nad ydyn nhw'n cyrraedd y safonau mae'r cyhoedd yn eu disgwyl gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn rhan bwysig o'n gwaith.

1. Cyflwyniad

Ynghylch beth y mae'r canllaw hwn

1.1 Diben y ddogfen hon yw helpu pobl i ddeall:

- sut rydyn ni'n ymchwilio i bryderon ynghylch gweithwyr fferyllol proffesiynol
- ein proses gwneud penderfyniadau, a
- phryd, a sut, y mae'r meini prawf trothwy yn cael eu defnyddio

Mae'n cynnwys gwybodaeth am:

- ein dull ymchwilio
- yr hyn sydd yn ein meini prawf trothwy, a
- sut mae'r meini prawf trothwy yn cael eu cymhwyso at ofidiau a allai gwestiynu a oes nam ar weithiwr fferyllol proffesiynol i ymarfer

1.2 Prif nod y canllaw hwn yw sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu'n briodol gan benderfyniadau priodol, cyson a chymesur ynghylch a ddylid cyfeirio pryder sydd wedi ei fynegi at y pwyllgor ymchwilio.

Ar gyfer pwy y mae'r canllaw hwn

1.3 Mae'r canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sydd:

- ynghlwm wrth ymchwiliad
- wedi mynegi gofid ynghylch gweithiwr fferyllol proffesiynol, neu
- sydd â gofid amdano wedi ei gyfeirio at y CFfC

1.4 Bwriedir y canllaw hefyd i fod o gymorth i staff y CFfC, a gweithwyr fferyllol proffesiynol, eu cynrychiolwyr a chyflogwyr. Credwn y bydd o ddefnydd i unrhyw un sydd â diddordeb yn y broses addaswydd i ymarfer, gan gynnwys pobl a all fod yn ystyried mynegi gofid wrthym.

1.5 Byddwn yn adolygu'r canllaw hwn yn gyson er mwyn:

- ystyried newidiadau mewn deddfwriaeth a'r gyfraith achosion
- sicrhau ei fod yn gyson â dogfennau canllaw eraill
- sicrhau ei fod yn para'n 'addas at ei ddiben' ac yn hygyrch i'n holl randdeiliaid

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

- 1.6 Mae'r CFfC yn ymrwymedig at hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wneud ei waith. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ymhlith ein staff, ein proffesiwn a'n cyngor, a'r ffaith eu bod i gyd yn unigolion. Ein nod yw sicrhau bod ein prosesau yn deg, yn wrthrychol, yn dryloyw ac yn rhydd rhag camwahaniaethu, a bod ein holl randdeiliaid yn derbyn gwasanaeth o safon. Rydym yn cadw at yr egwyddorion a ymgorfforir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac rydym wedi datblygu **cynllun cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**.
- 1.7 Disgwylir i holl staff y CFfC arddangos ein gwerthoedd a gweithio tuag at y nodau hyn ar bob adeg yn ystod y broses addasrwydd i ymarfer. Bydd y CFfC yn gweithredu'n unol â'r hawliau a ddisgrifir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'u hymgorfforir yn y gyfraith ddomestig gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

2. Ynghylch ymchwiliadau

- 2.1 Mae'r CFfC yn gyfrifol am gynnal y gofrestr fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol. I barhau ar y rhestr, rhaid i weithwyr fferyllol fod yn addas i ymarfer.
- 2.2 Un o'r ffyrdd rydym yn sicrhau bod y gweithwyr fferyllol sydd ar y gofrestr yn addas i ymarfer yw drwy ymchwilio pan fyddwn yn derbyn pryder amdany'n nhw.
- 2.3 Un rhan yn unig o'r broses addasrwydd i ymarfer, sy'n cychwyn pan fo rhywun yn mynegi pryder wrth y CFfC¹, yw ymchwiliad. Gall y broses hon ddod i ben ar wahanol gamau:
 - ar ôl yr ymchwiliad
 - mewn cyfarfod pwyllgor ymchwilio PY
 - mewn gwrandawriad pwyllgor addasrwydd i ymarfer (PAY)²

Y canllawiau a ddefnyddir ymhob cam o'r broses



- 2.4 Defnyddir canllawiau gwneud penderfyniadau ar bob cam i'n helpu i benderfynu ar gamau gweithredu. Mae'r canllaw wedi ei seilio ar y gyfraith a gweithdrefnau sefydledig, ac yn ystyried egwyddorion rheoli da. Cyhoeddir y canllawiau canlynol ar wneud penderfyniadau da gennym:
 - *Gwneud penderfyniadau da: Ymchwiliadau a meini prawf trothwy* (y canllaw hwn) i benderfynu a ddylid cyfeirio achos at y PY.
 - *Gwneud penderfyniadau da: canllaw i gyfarfodydd pwyllgorau ymchwilio a chanlyniadau* ar gyfer cyfarfodydd PY, y broses ymchwilio a chanlyniadau pwyllgorau PY.

¹ Os yw'r gofid yn un y gall y CFfC ymchwilio iddo

² Cyfeirir rhai achosion yn uniongyrchol gan y cofrestrwydd - Erthygl 52(2)(b) ac Erthygl 54 (1)(a) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

- *Gwneud penderfyniadau da: canllaw ar gyfer gwrandawiadau addasrwydd ymarfer a sancsiynau, ar gyfer gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a'r penderfyniadau a wneir gan PAY yn ystod gwrandawiad.*

2.5 Ar ein gwefan, fe welir **rhagor o wybodaeth ynghylch mynegi pryder** ar **y broses ymchwilio ac addasrwydd ymarfer** ac **ar gyfer cyflogwyr syn ystyried mynegi pryder.**


Ymchwiliadau

- 2.6 Mae'r CFC yn ymrwymedig at ymchwilio i bryderon yn effeithiol ac yn effeithlon ac mewn ffordd gymesur. Golyga hyn ymchwilio i bryderon a sicrhau y dilynr y camau gweithredu priodol, er mwyn sicrhau bod gweithwyr fferyllol yn addas i ymarfer. Pan fo pryder yn cael ei fynegi wrthym, mae'n bosibl y byddwn yn cynnal ymchwiliad. Mae ymchwilio effeithiol, a datrys pryderon ar lefel leol gyda chyflogwyr pan yn briodol, yn helpu i sicrhau bod ein hymchwiliadau wedi eu targedu'n iawn.
- 2.7 Dim ond gwybodaeth a allai gwestiynu addasrwydd gweithiwr fferyllol i ymarfer y byddwn yn ymchwilio iddi. Ystyr 'addasrwydd ymarfer' yw pan fo gweithiwr fferyllol yn dangos bod ganddo'r sgiliau, y wybodaeth, y cymeriad a'r iechyd i wneud ei waith yn ddiogel ac yn effeithiol a chynnal enw da'r proffesiwn. Gall nifer o bethau amharu ar addasrwydd i ymarfer, a nodir nhw yn y ddeddfwriaeth. Mae'r rhesymau'n cynnwys:
- camymddwyn
 - perfformiad proffesiynol annigonol
 - peidio â meddu ar y wybodaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg
 - afiechyd
 - collfarn am drosedd droseddol³
- 2.8 Nid yw'n rôl yn ymchwilio mewn achosion addasrwydd i ymarfer yn cynnwys datrys anghydfodau rhwng gweithwyr fferyllol proffesiynol, cyflogwyr, unigolion a sefydliadau eraill. Ni allwn helpu unrhyw un i gael ymddiheuriad nac iawndal.

Wedi i bryder gael ei fynegi

- 2.9 Pan fyddwn yn derbyn mynegiant o bryder gyntaf, byddwn yn:
- edrych ar y dystiolaeth sydd wedi ei darparu
 - ystyried a all y CFC weithredu ar y mater sydd wedi ei godi, ac
 - ystyried a ddylem agor ymchwiliad

³ Mae Erthygl 51 Gorchymyn Fferylliaeth 2010 yn cynnwys y rhestr gyflawn o gategoriâu 'nam'

- 
- 2.10 Pe byddai'n well i reoleiddiwr neu asiantaeth arall ddelio gyda'r pryder, byddwn yn ei drosglwyddo atyn nhw. Byddwn weithiau yn cynnal ymchwiliad ochr yn ochr â chorff neu asiantaeth arall.
- 2.11 Pan fyddwn yn derbyn pryder byddwn yn ystyried gyntaf a yw'n ymwneud â:
- gweithiwr fferyllol proffesiynol
 - rhywun sydd heb gofrestru, ond sydd yn ymarfer fel gweithiwr fferyllol neu'n defnyddio'r teitl 'fferyllydd' neu 'dechnegydd fferyllol'
 - unrhyw gategoriâu a nodir yn ein deddfwriaeth⁴
- 2.12 Bydd y CFfC yn ymchwilio i bryder pan fo:
- angen gwneud hynny i warchod diogelwch cleifion
 - er budd yr aelod cofrestredig, neu
 - er budd y cyhoedd am reswm arall
- 2.13 Ni fyddwn yn ymchwilio i bryderon sy'n ymwneud yn bennaf â gwasanaeth cwsmer neu faterion yn ymwneud â chyflogaeth. Mae **rhagor o fanylion am bethau na fyddwn yn ymchwilio iddynt ar ein gwefan.**
- 2.14 Os bydd y pryder yn un y gall y CFfC ddelio ag ef, byddwn yn cadarnhau a fyddwn yn ymchwilio iddo ac yn dynodi swyddog neu arolygydd i'r achos.

Camau gweithredu sydd ar gael yn ystod ymchwiliad

- 2.15 Mae nifer o bethau y gallwn eu gwneud i helpu gyda'r ymchwiliad a sicrhau y cynhelir diogelwch cleifion a'r cyhoedd. Gallwn:
- gau'r achos heb weithredu'n bellach
 - cyflwyno cyfarwyddyd anffurfiol i'r aelod, neu
 - gyfeirio'r achos i'r pwyllgor ymchwilio
- 2.16 Gall y cofrestrydd hefyd benderfynu cyfeirio'r achos yn uniongyrchol at y pwyllgor addasrwydd ymarfer a/neu wneud cais am orchymyn dros dro (GDD).

Gorchmynion dros dro

- 2.17 Mae gan y CFfC y grym i wneud cais am orchymyn dros dro (GDD)⁵. Gweithred frys yw hon a all naill ai wahardd gweithiwr fferyllol rhag ymarfer dros dro neu gyfyngu ar ei allu i ymarfer mewn

⁴ Erthygl 51 Gorchymyn Fferylliaeth 2010

⁵ Erthygl 52(3)(b) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

rhyw ffordd drwy osod amodau arno. Dim ond y pwyllgor addaswydd i ymarfer all weithredu'r GDD, a gall fod yn ei le tan i'r broses addaswydd i ymarfer ddod i ben⁶.

2.18 Efallai y bydd angen GDD i ddiogelu'r cyhoedd, neu er budd y cyhoedd neu'r gweithiwr fferyllol proffesiynol dan sylw.

Cyfeirio'n uniongyrchol

2.19 Gall y cofrestrydd gyfeirio⁷ achos yn uniongyrchol i wrandawriad addaswydd i ymarfer mewn rhai amgylchiadau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys sefyllfaoedd lle byddai delio â'r achos ar frys er budd y cyhoedd.

Asesu materion yn ymwneud ag iechyd

2.20 Gallai pryder sydd wedi ei fynegi ddangos bod iechyd aelod yn effeithio ar ei allu i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol, oherwydd defnydd alcohol neu gyffuriau, er enghraifft. Os felly, byddwn yn gofyn i'r aelod ganiatáu i ni gysylltu â'i feddyg teulu, ysbyty neu ddarparwr gofal iechyd. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn gofyn i'r aelod gael **asesiad iechyd**. Rydym yn aml yn gwneud hyn mewn achosion pan fo gweithiwr fferyllol wedi derbyn rhybudd neu gollfarn am drosedd oedd yn cynnwys alcohol neu gyffuriau. Ond gellir gwneud hyn mewn unrhyw achos lle mae gwybodaeth yn awgrymu y dylem asesu iechyd gweithiwr fferyllol proffesiynol.

Asesiad o allu yn yr iaith Saesneg

2.21 Os ydym yn bryderus nad oes gan weithiwr fferyllol proffesiynol ddealltwriaeth angenrheidiol o'r iaith Saesneg, gall y cofrestrydd (neu bwyllgor ymchwilio neu bwyllgor addaswydd i ymarfer) benderfynu ei fod yn⁸:

- sefyll arholiad neu'n cael asesiad o'i wybodaeth o'r iaith Saesneg, ac
- anfon tystiolaeth o ganlyniad yr arholiad neu asesiad hwnnw at y cofrestrydd

2.22 Mae'n bosibl y gwnawn hyn os credwn nad oes gan weithiwr fferyllol y wybodaeth o'r Saesneg sydd ei hangen i allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol fel gweithiwr fferyllol proffesiynol ym Mhrydain. Os byddwn yn ystyried achosion o'r fath, byddwn yn ystyried y **canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi**.

⁶ Gellir gosod GDD am gyfnod o hyd at 18 mis. Wedi hyn, dim ond drwy wneud cais i'r Goruchaf Lys neu'r Court of Session yn yr Alban y gellir ei ymestyn.

⁷ Erthygl 52(2)(b) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

⁸ Rheol 6(4)(e) – Gorchymyn Cyngor y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (Rheolau Addaswydd Ymarfer a Diarddel ac ati) 2010



Ceisiadau i ddiddymu aelodaeth yn wirfoddol

2.23 Mewn amgylchiadau arbennig, gall y cofrestrydd ddiddymu aelod o'r gofrestr pan fo'r aelod hwnnw yn destun ymchwiliad ac yn gwneud cais i gael ei ddiddymu o'r gofrestr.

Cyfeirio gwybodaeth at gorff diddymu

2.24 Gall y cofrestrydd hefyd **gyfeirio gwybodaeth ynghylch gweithiwr fferyllol proffesiynol** i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu Disclosure Scotland os yw'r pryder yr ydym yn ymchwilio iddo yn awgrymu bod diogelwch plant neu oedolion agored i niwed yn peri gofid.

3. Penderfynu ar ganlyniad

- 3.1 Wedi i ni orffen ein hymchwiliad byddwn yn adolygu'r dystiolaeth a gasglwyd gennym a phenderfynu sut i weithredu. Mae nifer o ganlyniadau'n bosibl, gan gynnwys cyfeirio at y pwyllgor ymchwilio.
- 3.2 Mae'r meini prawf trothwy wrth galon ein proses gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cyfeirio achos i'r pwyllgor ymchwilio neu a fyddai canlyniad arall yn fwy priodol. Byddwn yn cyfeirio achos os bydd y dystiolaeth yn ei chyfanrwydd yn awgrymu bod o leiaf un o elfennau ymddygiad, perfformiad neu iechyd yn bodloni'r meini prawf a bod cyfeirio yn mynd i fod o fudd i'r cyhoedd.

Y broses gwneud penderfyniadau

- 3.3 Wedi i ni orffen yr ymchwiliad, rydym yn defnyddio'r broses benderfynu ganlynol.



- 3.4 Wedi i ni adolygu'r dystiolaeth byddwn yn ei hasesu yn erbyn y meini prawf trothwy.

Defnyddio'r meini prawf trothwy

- 3.5 Bydd achos yn cael ei ystyried yn erbyn y meini prawf trothwy⁹ gynted ag y daw ymchwiliad i ben. Mae'r pŵer i greu a defnyddio meini prawf trothwy wedi ei nodi yn ein deddfwriaeth, ac maent yn helpu'r cofrestrydd i benderfynu a ddylid cyfeirio pryder at y PY. Maen nhw'n helpu i sicrhau bod ein penderfyniadau'n gyson drwy'n holl ymchwiliadau ac mai dim ond achosion priodol sy'n cael eu cyfeirio at y PY. Mae eglurhad o'r meini prawf a ddefnyddiwn yn rhan nesaf y ddogfen hon.

⁹ Erthygl 52(2)(a) Gorchymyn Fferylliaeth 2010 a rheol 6(2)(a) Rheolau Addasrwydd i Ymarfer a Diarddel ac ati 2010

Meini prawf trothwy

Ni ddylai'r cofrestrydd gyfeirio achos at y PY oni bai bod y dystiolaeth yn ei chyfanrwydd yn awgrymu'r canlynol:

Ymddygiad, perfformiad

- yn cyflwyno risg gwirioneddol neu bosibl i ddiogelwch cleifion neu'r cyhoedd
- yn tanseilio, neu'n debygol o danseilio, ffydd y cyhoedd yn y proffesiynau fferyllol
- y bu methiant difrifol neu gyson i gyrraedd unrhyw un neu rai o'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, neu
- na ellir mwyach ddibynnu ar onestrwydd neu integriti'r gweithiwr fferyllol proffesiynol

Iechyd

- mae sefyllfa iechyd corfforol neu feddyliol yn cyflwyno risg i allu'r gweithiwr fferyllol i ymarfer yn ddiogel neu'n effeithiol

Budd y Cyhoedd

- a bod cyfeirio yn mynd i fod o fudd i'r cyhoedd

3.6 Wrth ystyried achos yn ymwneud ag ymddygiad, perfformiad neu iechyd, bydd y cofrestrydd yn ystyried y canlynol:

- ymddygiad a gweithredoedd y gweithiwr fferyllol proffesiynol
- a oedd gweithredoedd y gweithiwr fferyllol yn ddi-hid neu'n fwriadol
- a yw'r gofid yn adlewyrchu mater sy'n codi'n gyson, ac
- a wnaeth y gweithiwr fferyllol ymddwyn yn onest ac yn agored

3.7 Gall y cofrestrydd hefyd ystyried y canlynol:

- a ddysgodd y gweithiwr fferyllol o'r hyn a ddigwyddodd
- a yw'r gweithiwr fferyllol wedi cymryd camau adfer, drwy ddilyn hyfforddiant neu newid ei ymarfer, er enghraifft
- a yw'r gweithiwr fferyllol wedi derbyn cyfarwyddyd neu gyngor ynghylch y mater hwn neu faterion tebyg yn y gorffennol

3.8 Os bydd **dim un** o'r meini trothwy hyn yn cael eu bodloni, ni fydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y PY. Efallai y caiff ei gau heb weithredu pellach, neu drwy roi cyfarwyddyd anffurfiol.

- 3.9 Os bydd **o leiaf un o'r meini prawf** hyn yn cael ei fodloni, bydd y cofrestrydd wedyn yn ystyried budd y cyhoedd. Mae eglurhad o'r ystyriaethau'n ymwneud â budd y cyhoedd yn yr adran nesaf.

Ystyriaethau'n ymwneud â budd y cyhoedd

- 3.10 Os bydd y dystiolaeth yn ei chyfanrwydd yn awgrymu bod o leiaf un o'r agweddau ymddygiad neu iechyd yn bodloni'r meini prawf byddwn yn ystyried a fyddai cyfeirio'r pryder at y pwyllgor ymchwilio o fudd i'r cyhoedd.
- 3.11 Mae ystyriaethau'n ymwneud â budd y cyhoedd yn rhan bwysig o'r fframwaith penderfyniadau. Bydd y maen prawf hwn fel arfer yn cael ei fodloni os bydd unrhyw un o'r meini prawf yn cael eu bodloni. Gallai amgylchiadau arbennig godi, fodd bynnag, lle na fyddai cyfeirio o fudd i'r cyhoedd.
- 3.12 Wrth benderfynu a ydy cyfeirio at y PY o fudd i'r cyhoedd, mae'r hyn y gall y cofrestrydd ei ystyried yn cynnwys difrifoldeb, neu ddifrifoldeb posibl, y pryderon, a yw cyfeirio'n ymateb cymesur, yr amgylchiadau a'r lleoliad lle digwyddodd y mater, a oes risg i'r person a fynegodd y pryder neu unrhyw dystion, ac amgylchiadau penodol yr aelod cofrestredig, mater iechyd difrifol er enghraifft. Nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr ac mae'n bosibl na fydd pob ffactor ar waith ymhob achos.
- 3.13 Bydd y wybodaeth yn cael ei hystyried yng nghyd-destun yr achos, ein nod statudol i ddiogelu'r cyhoedd¹⁰ a difrifoldeb y pryderon at ei gilydd. Os bydd y cofrestrydd o'r farn y byddai cyfeirio'r achos o fudd i'r cyhoedd, bydd yn ei gyfeirio. Os na fydd yn penderfynu y byddai o fudd i'r cyhoedd, ni fydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y PY ac mae'n bosibl y bydd yr achos yn cael ei gau heb weithredu pellach neu drwy gyflwyno cyfarwyddyd anffurfiol.

Canlyniadau sydd ar gael

- 3.14 Bydd y canlyniad y penderfynwn arno yn dibynnu ar ystyried a fodlonir unrhyw un neu rai o'r meini prawf ymddygiad, perfformiad neu iechyd ac ar benderfyniad y cofrestrydd ynghylch budd y cyhoedd.
- 3.15 Os bydd *unrhyw un neu rai* o'r meini prawf ymddygiad, perfformiad neu iechyd yn cael ei/eu bodloni *ac* y byddai cyfeirio o fudd i'r cyhoedd, yna bydd y cofrestrydd yn cyfeirio.
- 3.16 Os bydd *dim* o'r meini prawf ymddygiad, perfformiad neu iechyd yn cael eu bodloni, yna bydd pob canlyniad, *heblaw am* gyfeirio, ar gael.

¹⁰Erthygl 6 Gorchymyn Fferylliaeth 2010

3.17 Os bydd un neu ragor o'r meini prawf yn cael eu bodloni *ond* na fyddai cyfeirio o fudd i'r cyhoedd, yna bydd pob canlyniad arall, *heblaw am* gyfeirio ar gael. Dim ond mewn amgylchiadau arbennig y byddai'r sefyllfa hon yn berthnasol.

3.18 Mae'r amgylchiadau sydd ar waith ar gyfer pob canlyniad, a'u heffaith ar aelodaeth, wedi eu nodi yn y tabl canlynol.

Canlyniad	Effaith ar aelodaeth o'r gofrestr	Amgylchiadau lle gallai hyn fod yn berthnasol
Dim gweithredu pellach	Ni chofnodir hyn ar y gofrestr. Efallai y bydd yn cael ei ystyried wrth ymchwilio i unrhyw bryderon yn y dyfodol.	Mae diffyg tystiolaeth i gefnogi'r pryder a fynegwyd. Nid yw'r meini prawf wedi eu bodloni. Hefyd, yn amgylchiadau'r achos, nid ystyrir bod cyfarwyddyd anffurfiol yn briodol.
Cau gyda chyfarwyddyd anffurfiol	Ni chofnodir hyn ar y gofrestr. Fodd bynnag, efallai y bydd yn cael ei ystyried wrth ymchwilio i unrhyw bryderon yn y dyfodol. Dylai'r cyfarwyddyd a roddir: <ul style="list-style-type: none"> fod wedi ei deilwra at y pryderon penodol ymdrin â'r safonau proffesiynol perthnasol, a fod ag iddo'r nod o atal digwyddiad tebyg rhag digwydd yn y dyfodol 	Nid yw'r meini prawf wedi eu bodloni. Nid oedd gweithredoedd y gweithiwr fferyllol yn ddi-hid, ac nid oedd bwriad i achosi niwed, a gall y gweithiwr weithredu i adfer y sefyllfa. Nid oes risg i'r cyhoedd yn y dyfodol. Mae'r cofrestrydd o'r farn bod cyfarwyddyd anffurfiol sy'n ymwneud â'r pryderon penodol a fynegwyd yn ganlyniad cymesur i'r achos.
Cyfeirio at y pwyllgor ymchwilio	Ni chofnodir y cyfeiriad ar y gofrestr ar-lein. Fodd bynnag, efallai y cofnodir canlyniad y PY neu'r PAY.	Mae hyn ar waith mewn achosion mwy difrifol: er enghraifft, torri safonau'n ddifrifol neu gamymddwyn yn ddifrifol. Mae ymchwiliad gan y pwyllgor ymchwilio o fudd i'r cyhoedd.

Penderfynu pa ganlyniad sy'n briodol

3.19 Wedi i ni asesu'r agweddau ymddygiad, perfformiad ac iechyd, a budd y cyhoedd, byddwn yn penderfynu ar ganlyniad. Mae'r canlyniadau posibl wedi eu nodi yn y tabl isod.

Ymddygiad, perfformiad, iechyd	Budd y cyhoedd	Canlyniad posibl
Dim meini prawf wedi eu bodloni	Ddim yn berthnasol	Dim gweithredu pellach Cau gyda chyfarwyddyd anffurfiol
Un maen prawf neu ragor wedi ei fodloni/eu bodloni	Cyfeirio ddim o fudd i'r cyhoedd	Dim gweithredu pellach Cau gyda chyfarwyddyd anffurfiol
Un maen prawf neu ragor wedi ei fodloni/eu bodloni	Cyfeirio o fudd i'r cyhoedd	Cyfeirio at y PY



4. Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud

- 4.13 Pan fydd achos yn cael ei gau, os bydd cyfarwyddyd anffurfiol wedi ei roi ai peidio, efallai y bydd y CFC yn defnyddio'r wybodaeth wrth asesu unrhyw bryderon a ddaw yn y dyfodol ynghylch y gweithiwr fferyllol proffesiynol dan sylw. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth wrth arolygu fferyllfeydd cofrestredig. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth yn unol â'n **polisi cyhoeddi a datgelu**.
- 4.14 Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud. Byddwn yn hysbysu'r partïon perthnasol. Bydd yr achos naill ai'n cael ei gau (gyda chyfarwyddyd anffurfiol wedi ei roi neu gyfarwyddyd anffurfiol heb ei roi), neu bydd yn mynd yn ei flaen i'r pwyllgor ymchwilio. Mae rhagor o wybodaeth am gam nesaf y broses yn **Gwneud penderfyniadau da: canllaw i gyfarfodydd y pwyllgor ymchwilio a chanlyniadau**.

Sicrhau ansawdd penderfyniadau

- 4.15 Mae ansawdd a chysondeb ein penderfyniadau yn bwysig iawn. Ein nod yw sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau teg a chymesur ymhob ymchwiliad, felly mae ein proses sicrhau ansawdd fewnol ar waith iddyn nhw i gyd. Mae'r canllaw hwn yn rhan hanfodol o'n hymdrech i sicrhau ein bod yn cyrraedd y nod hwnnw.



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 @TheGPhC
 TheGPhC
 /company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org